# Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020

**2020 dsc 2**

*Gwaharddiad ar ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol*

## 1 Trosedd i ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau teithiol

(1) Mae person sy'n weithredwr syrcas deithiol yn cyflawni trosedd os yw'r person yn defnyddio anifail gwyllt yn y syrcas deithiol yng Nghymru, neu'n peri neu'n caniatáu i berson arall wneud hynny.

(2) At ddiben yr adran hon, mae anifail gwyllt yn cael ei ddefnyddio os yw'r anifail—

- (a) yn perfformio, neu
- (b) yn cael ei arddangos.

(3) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (1) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020, Adran 1.